



PROSES LLES ANIFEILIAID AC ADOLYGU MOESEGOL

Adolygwyd	Dyddiad	Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid	Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
1.	Mawrth 2009	Cyhoeddiad cyntaf	
2.	Awst 2011	Newid – Newid cadeirydd, newid yng ngofynion yr ERC o ran cworwm	
3.	9 Tachwedd 2015	Adolygwyd a chymeradwywyd gan Bwyllgor Moeseg y brifysgol	
4.	6 Mehefin 2023	Adolygiad a chymeradwyaeth y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol	

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil	Prif Swyddog Gweithredu	Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol	6 Mehefin 2023

Caiff y broses hon ei diweddarau ymhen tair blynedd

Prifysgol Bangor

Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986 Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol

A. Cefndir

Er 1999, bu'n ofyniad a nodwyd fel amod safonol fod trefn adolygu moesegol gan bob sefydliad sydd wedi ei ddynodi dan Adrannau 6 neu 7 y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986 ("y ddeddf"). Cafodd y gofynion hyn eu diweddarau gan Reoliadau Diwygio 2012 (SI 2012/3039) Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986 a chan y Canllawiau ar Weithrediad Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986 a gyhoeddwyd dan delerau adran 21(1) y Ddeddf.

B. Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol

1. Yn y Broses Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol, dylai deiliad trwydded y sefydliad sicrhau bod staff y sefydliad yn cael eu cynnwys mor eang â phosib mewn fframwaith lleol sy'n gweithredu i sicrhau bod unrhyw ddefnydd o anifeiliaid yn y sefydliad, yn unol â rheoliadau'r ddeddf, yn cael ei ystyried yn ofalus a'i gyfiawnhau, bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r holl bosibiliadau ar gyfer lleihau, gwella a disodli; a bod safonau uchel o ran llety a gofal yn cael eu sicrhau.
2. Bydd y broses a ddefnyddir gan y brifysgol yn cael ei llywio gan y gofynion a nodir yn Atodiad J.
3. Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol

Dyma fydd aelodaeth y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol (yn unol ag Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 6 y ddeddf)

Aelodau Craidd

Y Milfeddyg Penodedig

Swyddog(ion) Penodedig Gofal a Lles Anifeiliaid (NACWO)

O leiaf un a hyd at ddau ddeiliad trwydded project a / neu ddeiliad trwydded bersonol

Gwahoddir yr unigolion canlynol hefyd:

Deiliad trwydded y sefydliad

Uwch aelod o'r staff technegol gofal anifeiliaid

Hyd at dri aelod cyfetholedig nad ydynt yn dal trwydded o dan y ddeddf

Aelod lleyg sydd â diddordeb mewn lles anifeiliaid a / neu foeseg

Aelod o'r Gwasanaethau Llywodraethu sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r ddeddf a'r canllawiau, y polisi a'r prosesau cysylltiedig.

Deiliad trwydded y sefydliad (pan fo'n bresennol) fydd fel rheol yn cadeirio'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol, ac yn ei absenoldeb bydd y Swyddog Penodedig Gofal a Lles

Anifeiliaid yn cadeirio. Bydd gan arolygydd y Swyddfa Gartref hefyd hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol.

Bydd gan y corff gworwm pan fo'r aelodau craidd yn bresennol neu pan fyddant wedi eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniad.

Bydd unrhyw un a gyfetholir yn gwasanaethu fel aelod o'r pwyllgor am gyfnod o dair blynedd i ddechrau a gellir ei ailbenodi i wasanaethu am un cyfnod arall o 3 blynedd.

4. Mae aelodaeth y corff yn cynnwys y rheiny sydd â chyfrifoldebau a dyletswyddau diffiniedig sydd wedi eu pennu yn nhystysgrif adeiladau'r sefydliad. Bydd gan yr aelod cyfetholedig ddiddordeb mewn lles a / neu foeseg anifeiliaid, ond ni fyddant yn cymryd rhan mewn unrhyw waith o dan y ddeddf.
5. Bydd gwaith y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn cyd-fynd â'r hyn a nodir yn Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 6(3) y ddeddf, sef:
 - a) cynghori staff sy'n ymdrin ag anifeiliaid yn y sefydliad trwyddedig ar faterion yn ymwneud â lles anifeiliaid, mewn perthynas â'u caffael, eu hamodau byw, eu gofal a'r defnydd a wneir ohonynt;
 - b) cynghori ar gymhwyso tair egwyddor greiddiol ymchwil gydag anifeiliaid a rhoi gwybod am ddatblygiadau technegol a gwyddonol perthnasol;
 - c) sefydlu ac adolygu prosesau rheoli a gweithredu o ran monitro, adrodd a dilyniant mewn perthynas â lles anifeiliaid a gedwir neu a ddefnyddir yn y sefydliad trwyddedig;
 - d) dilyn datblygiad a deilliant (adolygiad ôl-weithredol) o brojectau a gyflawnir yn y sefydliad, gan gymryd i ystyriaeth yr effaith ar yr anifeiliaid a ddefnyddir; a nodi a chynghori ar elfennau a allai gyfrannu ymhellach at y tair egwyddor greiddiol; a
 - e) chynghori ar gynlluniau ail-gartrefu, gan gynnwys cymdeithasoli'r anifeiliaid sydd i'w hail-gartrefu.

Gwireddir y nodau hyn trwy waith y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol a hwnnw'n cyflawni tair prif swyddogaeth y broses lles anifeiliaid ac adolygu moesegol (fel y nodir yn adran 6-8 isod).

6. Cymeradwyo Ceisiadau am Drwyddedau Project a Newidiadau

- 6.1 Bydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn ystyried ac yn cymeradwyo pob cais am drwyddedau project cyn iddynt gael eu harwyddo gan ddeiliad trwydded y sefydliad a'u cyflwyno i'r Swyddfa Gartref.
- 6.2 Rhaid i ymgeiswyr gydymffurfio â holl ofynion y ddeddf ynghyd â holl bolisiau perthnasol y brifysgol. Rhaid i ymgeiswyr ymgynghori a cheisio cyngor gan ddeiliaid trwydded project profiadol cyfredol, y Swyddog Gofal a Lles Anifeiliaid enwebedig a'r milfeddyg enwebedig cyn cyflwyno eu ceisiadau.
- 6.3 Er mwyn atal oedi gormodol wrth ystyried ceisiadau oherwydd amserlennu cyfarfodydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol gall yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil, ar

ôl ymgynghori â deiliad trwydded y sefydliad a NACWO, alw cyfarfod arbennig o'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y gwneir penderfyniadau'n electronig.

6.4 Gall deiliad trwydded y sefydliad lofnodi'r ceisiadau unwaith y cynhelir cyfarfod o'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol, neu ar ôl cael ymatebion cadarnhaol gan aelodau'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol.

6.5 Bydd y canlynol sy'n deillio o'r tair egwyddor greiddiol ymhlith y meini prawf a ddefnyddir gan y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol i asesu ceisiadau:

- A yw'n amlwg nad oes dewisiadau amgen dilys yn lle defnyddio anifeiliaid yn y gwaith arfaethedig?
- A yw nifer yr anifeiliaid y bwriedir eu defnyddio yn briodol – h.y. yn ddigon mawr i gynhyrchu canlyniad ystadegol ddilys ac nid yn fwy.
- Beth yw'r cydbwysedd rhwng y gost i'r anifeiliaid dan sylw a'r manteision tebygol a ddaw yn sgil yr ymchwil?
- Waeth beth fo'r olaf, a oes ffyrdd y gellid mireinio'r gweithdrefnau i leihau'r gost i anifeiliaid heb effeithio ar ddilysrwydd gwyddonol y project?

6.6 Bydd ceisiadau am drwyddedau project a gymeradwyir trwy ohebiaeth yn cael eu hadrodd yng nghyfarfod nesaf y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol.

6.7 Rhaid i ddiwygiadau i drwyddedau project cyfredol gael eu cymeradwyo gan ddeiliad trwydded y sefydliad cyn eu cyflwyno i'r Swyddfa Gartref. Os, ar ôl ymgynghori â'r NACWO, y NVS, deiliad trwydded project profiadol a / neu ddeiliad trwydded bersonol profiadol, yr hysbysir deiliad trwydded y sefydliad bod y diwygiadau naill ai'n ddibwys neu'n fanteisiol i'r anifeiliaid, yna bydd ganddo'r awdurdod i'w cymeradwyo a'u hadrodd i gyfarfod nesaf y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol. Os bydd problemau sylweddol yn cael eu codi yna ymgynghorir â phob aelod o'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol trwy ohebiaeth, ac os bydd gofyn, caiff cyfarfod arbennig o'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol ei alw. Caiff yr holl newidiadau a gymeradwyir gan ddeiliad trwydded y sefydliad eu hadrodd yng nghyfarfod nesaf Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol.

6.8 Ymdrinnir â cheisiadau i drwyddedau project eilaidd fod ar gael yn adeiladau dynodedig y brifysgol fel ceisiadau newydd.

6.9 Bydd newidiadau i geisiadau am drwyddedau project a newidiadau iddynt a wneir gan y Swyddfa Gartref yn cael eu hadrodd i'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol.

7. Cyfleusterau, Rheolwyr a Staff: Cyngor, Cefnogaeth ac Arweiniad

7.1 Mae'r cyfleusterau anifeiliaid dynodedig yng Ngholeg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianeg. Mae gan ddeiliad trwydded y sefydliad ddyletswyddau a chyfrifoldebau o dan y ddeddf a chyfrifoldebau rheoli dirprwyedig i ddarparu cyfleusterau priodol i anifeiliaid ac i'r staff sy'n eu defnyddio. Bydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn ceisio sicrhau bod safonau uchel o ran gofal a llety yn y cyfleusterau i anifeiliaid a bod systemau rheoli priodol yn eu lle i

sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddf. Bydd deiliad trwydded y sefydliad hefyd yn gyfrifol am gynghori Gwasanaethau Campws y brifysgol ar ofynion cynnal a chadw a gwelliannau i'r cyfleusterau.

- 7.2 Gwahoddir aelodau'r corff i ymweld â'r cyfleusterau trwyddedig yn rheolaidd;
- 7.3 Bydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn cael gwybodaeth flynyddol am ddeiliaid trwydded project a phersonol, staff technegol, ac eraill sy'n ymwneud â gofal anifeiliaid, gan gynnwys hyfforddiant a datblygiad staff a gwblhawyd. Bydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn adolygu'r wybodaeth hon ac yn cynghori ar sut gellir hyfforddi'r holl staff sy'n ymwneud â'r anifeiliaid yn briodol a sut gellir sicrhau cymhwysedd. Bydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol hefyd yn sicrhau bod adnoddau addas yn eu lle i hwyluso hyn.
- 7.4 Bydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn cynnig cyngor ar unrhyw fater moesegol yn ymwneud â defnyddio anifeiliaid o dan y ddeddf yn y brifysgol, a bydd yn derbyn ac yn ymateb i fynegiadau o bryder (yn gyfrinachol os oes angen). Yn benodol, cynghorir aelodau staff sy'n ystyried gwneud gwaith gydag anifeiliaid o natur ddadleuol i gysylltu â'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn gynnar yn y broses.
- 7.5 Bydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn ystyried, yng ngoleuni ei brofiad cynyddol, pa gamau y gall eu cymryd i hybu arfer gorau o ran defnyddio anifeiliaid ac i hyrwyddo lleihau, disodli a mireinio dewisiadau amgen o ran defnyddio anifeiliaid.

8. Adolygiad o Brojectau Cyfredol

- 8.1 Bydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn cael crynodebau project rheolaidd. Yn y cyfnodau adolygu bydd gofyn i ddeiliaid trwyddedau projectau gyflwyno adroddiad ysgrifenedig byr, yn ymdrin â'r materion isod, ymysg eraill:
 - Cynnydd hyd yma; a yw'r canlyniadau fel y rhagwelwyd; a oes rhaid wrth ddiwygiadau;
 - Unrhyw effeithiau andwyol gweithdrefnau a champau unioni;
 - Gwybodaeth am nifer yr anifeiliaid a ddefnyddiwyd a'r posibilrwydd o leihau niferoedd a mireinio technegau.

9. Cofnodion a Lledaenu Gwybodaeth

- 9.1 Bydd deiliad trwydded y sefydliad yn gyfrifol am gadw cofnodion digonol o'r broses adolygu moesegol, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd a gaiff eu dosbarthu i aelodau ac i arolygydd y Swyddfa Gartref.
- 9.2 Cadw cofnodion: Mae Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 6(4) y ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad trwydded y sefydliad sicrhau bod unrhyw gyngor a roddir gan y corff ac unrhyw benderfyniadau a wneir o ganlyniad i'r cyngor hwnnw yn cael eu cofnodi. Caiff y cofnodion hyn eu cadw am bum mlynedd a byddant ar gael i archwilydd, neu i'r Ysgrifennydd Gwladol, eu gweld os gwneir cais.

Bydd deiliad tystysgrif y sefydliad yn gyfrifol am baratoi adroddiad blynyddol ar waith y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol er mwyn ei gymeradwyo, ac yna i Bwyllgor Moeseg y brifysgol a fydd yn cynnwys yr wybodaeth a gyflwynwyd yn eu hadroddiad blynyddol i'r Cyngor.

Daw bodolaeth a phwrpas y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn hysbys yn y brifysgol trwy ddulliau priodol, ac ni chedwir yr adroddiad blynyddol yn afresymol oddi wrth unrhyw aelod o'r brifysgol a fo'n ceisio gwybodaeth. Os oes gan bwyllgorau eraill y brifysgol, aelodau unigol o'r brifysgol, neu sefydliadau ac unigolion o'r tu allan i'r brifysgol unrhyw sylwadau ynglŷn â gwaith y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol a gweithrediad y ddeddf, cânt eu cyflwyno trwy'r Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil, a bydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol yn eu hystyried.

- 9.4 Bydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol hefyd yn derbyn gwybodaeth yn gyson am adolygiad moesegol, y tair egwyddor, yr arfer gorau o ran lles anifeiliaid, ac unrhyw ddefnyddiau perthnasol eraill a ddosberthir gan y Swyddfa Gartref, y National Centre for the Replacement, Refinement and Reduction of Animals in Research, a chan unrhyw sefydliad arall perthnasol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid.
- 9.5 Bydd y NACWO yn gyfrifol, ar ran deiliad trwydded y sefydliad, am gadw cofrestr ganolog o'r holl bobl yn y brifysgol sydd wedi eu hyfforddi a'u hawdurdodi i gyflawni gweithdrefnau Atodlen 1.

10. Materion yn ymwneud ag Adrodd

- 10.1 Dylid hysbysu'r Prif Swyddog Gweithredu (deiliad trwydded y sefydliad) ar unwaith am unrhyw broblemau neu dor-reolau mewn perthynas â'r broses hon.
- 10.2 Mae'n bwysig rhoi gwybod am unrhyw broblemau neu dor-reolau cyn gynted â phosib er mwyn lleihau'r straen posib i'r anifeiliaid neu i unigolion a lleihau'r risg o niwed posib i'r brifysgol (yn cynnwys i'w henw da).
- 10.3 Ni ddylai unrhyw un, o dan unrhyw amgylchiadau, geisio celu unrhyw dor-reolau. Gall trosedd o'r fath arwain at gamau disgyblu a gall y Swyddfa Gartref hefyd ddymuno gweithredu.
- 10.4 Mae gan y brifysgol hefyd Bolisi Chwythu'r Chwiban. Mae hyn yn caniatáu i unigolion sydd â phryderon am weithredoedd unigolyn arall godi pryderon o'r fath mewn ffordd strwythurol ac adeiladol.

*Cymeradwywyd gan Gyngor y Brifysgol 27 Mawrth 2009 Fersiwn 1
Diweddarwyd a Chymeradwywyd gan y Pwyllgor Adolygu Moesegol, Awst 2011.
Cymeradwywyd gan Bwyllgor Moeseg y brifysgol 9 Tachwedd 2015
Diweddarwyd a Chymeradwywyd gan y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol Ionawr 2023
Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil Mawrth 2023
Diweddarwyd a Chymeradwywyd gan y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol Mehefin 2023*

Detholiad o'r canlynol:

Cyfarwyddyd ar Weithrediad Deddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) 1986

10. Cyrff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol

Dylai cyrff lles anifeiliaid ac adolygu moesegol, ar lawer cyfrif, ddatblygu a pharhau â gwaith y prosesau adolygu moesegol lleol a ddisodlwyd ganddynt ar 1 Ionawr 2013. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr adroddiad a wnaed ar y cyd rhwng RSPCA/LASA Guiding principles on good practice for Ethical Review Processes (2010) [<http://www.rspca.org.uk/laymembers>]

10.1 Y gofyniad

Dan erthygl 26 y gyfarwydddeb rhaid i ni, y Swyddfa Gartref, sicrhau bod pob sefydliad sy'n bridio, yn cyflenwi ac yn defnyddio yn sefydlu corff lles anifeiliaid. Mae erthygl 26 hefyd yn amodi isafswm aelodaeth y corff lles anifeiliaid ac mae erthygl 27 yn nodi isafswm y tasgau y dylai eu gwneud.

Mae'r gofynion hyn yn cael eu gweithredu gan Atodlen 2C ac Atodlen 3 y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol).

Mae Atodlen 2C, Rhan 1, paragraff 6 y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol), yn amodi bod rhaid i drwydded sefydliad adran 2C gynnwys amod sy'n mynnu bod y deiliad yn sefydlu ac yn cynnal 'Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol'. Mae Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 6 y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol), yn nodi'r amod safonol perthnasol, gan gynnwys gofynion aelodaeth.

10.2 Isafswm Aelodaeth

Mae Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 6 y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol), yn pennu bod rhaid i'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol gael, fel aelodau llawn, o leiaf un o swyddogion enwebedig gofal a lles anifeiliaid (eich sefydliad ac o leiaf un o'ch milfeddygon enwebedig (NVS)). Os yw eich sefydliad yn sefydliad sy'n defnyddio anifeiliaid, rhaid i'ch Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol hefyd gynnwys aelod gwyddonol. Dan Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 6 (2) (b) y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol), rhaid bod cymwysterau gofynnol yr aelod hwn yn dderbyniol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn gyffredinol, rydym yn debygol o dderbyn enwebiad unigolyn sydd yn cymryd rhan weithredol mewn gwyddoniaeth sy'n defnyddio anifeiliaid ac sy'n barod i ymrwymo amser i waith y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol. Dylech hefyd sicrhau bod y personau eraill a enwir, gan gynnwys swyddogion gwybodaeth enwebedig a swyddogion enwebedig hyfforddiant a chydymffurfiaeth, yn cymryd rhan weithredol yng ngwaith y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol o ystyried ehangder y tasgau sydd i'w gwneud ganddo (gweler Adran 10.4).

10.3 Aelodau ychwanegol

Dan Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 6 (2) (c) y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol), gall un Ysgrifennydd Gwladol bennu, drwy'r cyfarwyddyd hwn, bennu gofynion i bobl eraill fod yn aelodau o'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol. Yn unol â hynny, er mwyn helpu i sicrhau uniondeb y broses, rydym yn disgwyl i ddeiliaid trwydded y sefydliad drefnu bod eu Corff Lles Anifeiliaid ac

Adolygu Moesegol yn mynd ati i geisio aelodaeth ehangach gan gymryd i ystyriaeth, mewn modd tryloyw, farn pobl nad oes ganddynt gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol), yn ogystal ag un neu fwy o bobl sy'n annibynnol ar y sefydliad. Gall arolygwyr hefyd fynd i gyfarfodydd y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol o bryd i'w gilydd fel rhan o'u cyfrifoldebau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth.

10.4 Isafswm tasgau'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol

Mae Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 6 (3) y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) yn amodi bod rhaid i'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol wneud y tasgau a nodir yn Erthygl 27 y Gyfarwyddeb. Sef:

- (a) cynghori staff sy'n ymdrin ag anifeiliaid yn y sefydliad trwyddedig ar faterion yn ymwneud â lles anifeiliaid, mewn perthynas â'u caffael, eu hamodau byw, eu gofal a'r defnydd a wneir ohonynt;
- (b) cynghori ar gymhwysu tair egwyddor greiddiol ymchwil (gweler adran 2) gydag anifeiliaid - disodli, lleihau a gwella - a rhoi gwybod am ddatblygiadau technegol a gwyddonol perthnasol;
- (c) sefydlu ac adolygu prosesau rheoli a gweithredu o ran monitro, adrodd a dilynant mewn perthynas â lles anifeiliaid a gedwir neu a ddefnyddir yn y sefydliad trwyddedig;
- (d) dilyn datblygiad a deilliant (adolygiad ôl-weithredol) o brojectau a gyflawnir yn y sefydliad, gan gymryd i ystyriaeth yr effaith ar yr anifeiliaid a ddefnyddir; a nodi a chynghori ar elfennau a allai gyfrannu ymhellach at y tair egwyddor greiddiol; a
- (e) cynghori ar gynlluniau ailgartrefu, gan gynnwys cymdeithasoli'r anifeiliaid sydd i'w hailgartrefu.

10.5 Tasgau ychwanegol

Mae Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 6 (3) y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) hefyd yn darparu ar gyfer dyrannu tasgau cynghori ac adolygu eraill i Gyrff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol, naill ai trwy drwydded berthnasol y sefydliad neu mewn canllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn unol â hynny, dylai Cyrff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol hefyd:

- cynghori deiliad trwydded y sefydliad a ddylid cefnogi cynigion ar gyfer projectau, gan ystyried cynigion o'r fath yn bennaf o safbwynt lleol gan ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd lleol;
- cynorthwyo i asesu projectau perthnasol a gynhaliwyd yn y sefydliad yn ôl-weithredol (gweler Adran 5.17); ac
- ymateb i ymholiadau, ac ystyried cyngor, y Pwyllgor Anifeiliaid mewn Gwyddoniaeth (gweler Adran 13).

Yn fwy cyffredinol, dylai Cyrff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol wneud y canlynol:

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o les anifeiliaid a'r tair egwyddor greiddiol;
- ddarparu fforwm ar gyfer trafod a datblygu cyngor moesegol i'r deiliad trwydded sefydliadol ar bob mater sy'n ymwneud â lles, gofal a defnyddio anifeiliaid yn eu sefydliad;
- cefnogi'r sawl a enwyd, a staff eraill sy'n ymdrin ag anifeiliaid, gyda lles anifeiliaid, materion moesegol a darparu hyfforddiant priodol;
- helpu i hyrwyddo 'diwylliant o ofal' yn y sefydliad ac, fel y bo'n briodol, yn y gymuned ehangach.

Tra'n gwarchod cyfrinachedd, gall fod yn briodol rhannu rhai o allbynnau'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol gyda chydweithwyr yn y sefydliad, ac yn y gymuned ehangach, i hyrwyddo ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol.

10.6 Cadw Cofnod

Mae Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 6 (4) y Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol) yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad trwydded y sefydliad sicrhau y cedwir cofnod o unrhyw gyngor a roddir gan y Corff Lles Anifeiliaid ac Adolygu Moesegol ac unrhyw benderfyniadau a gymerwyd o ganlyniad. Rhaid cadw'r cofnodion hyn am o leiaf dair blynedd ac mae'n rhaid eu bod ar gael i arolygydd, neu i'r Ysgrifennydd Gwladol, os gwneir cais i'w gweld.

Y Swyddfa Gartref
Mawrth 2014